# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU – **TROSOLWG A CHASGLIADAU** – ADRANNAU 1-9

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Adolygiad o Ran L(2025) y Rheoliadau Adeiladu** |
| **Swyddog(ion) a gwblhaodd yr Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Paul Keepins**<br><br>**Mark Roberts** |
| **Adran:** | **Yr Is-adran Gynllunio** |
| **Pennaeth Is-adran/SRO (enw):** | **Neil Hemington** |
| **Gweinidog y Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:** | **Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**<br><br>**Rebecca Evans AS** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **2025** |

# CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? ..... 3

Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol? ..... 6

Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg? ..... 10

Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd? ..... 11

Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol? ..... 15

Adran 6. Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Beth fydd yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol? ..... 23

Adran 7. Cofnod o'r Asesiadau Effaith Llawn sy'n Ofynnol ..... 25

Adran 8. Casgliad ..... 27

Adran 9. Datganiad ..... 31

Asesiad Effaith Llawn ..... 33

B. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ..... 33

Asesiadau Effaith Llawn ..... 41

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG ..... 41

Asesiadau Effaith Llawn ..... 46

B. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth ..... 46

C. ADOLYGIAD O ASESIAD Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL ..... 53

# ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

## Cefndir y prosiect

Mae rheoliadau adeiladu yn gosod safonau gofynnol ar gwaith dylunio, adeiladwaith ac addasiadau i bron bob adeilad. Mae'r gofynion wedi'u cynnwys mewn 16 o rannau technegol gwahanol. Ar gyfer pob Rhan, mae canllawiau manwl hefyd ar gael mewn "Dogfennau Cymeradwy" sy'n pennu safon feincnod ar gyfer cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu a'r dulliau a'r deunyddiau cyffredin a ddefnyddir i'w cyflawni.

Mae Rhan L (arbed tanwydd ac ynni) yn rheoli pa mor ynni-effeithlon yw adeiladau o ddydd i ddydd. Er enghraifft, mae'n pennu safonau ar gyfer gwerthoedd thermol elfennau o adeilad (llawr, waliau, to ac ati) ac yn rheoleiddio'r defnydd a wneir o ynni mewn perthynas â gwresogi, dŵr poeth ac effeithlonrwydd goleuadau ac ati.

Cafodd Rhan L ei hadolygu ddiwethaf yn 2019/20/21 a arweiniodd at y diwygiadau i'r rheoliadau adeiladu yn 2022. Arweiniodd y diwygiadau hyn at welliant perfformiad cyfanredol (mewn allyriadau carbon) o 37% i anheddau newydd a 28% i adeiladau annomestig newydd. Pwysleisiodd y ddogfen ymgynghori ar gyfer yr adolygiad fod diwygiadau 2022 yn gam tuag at y newidiadau nesaf i effeithlonrwydd ynni yn y Rheoliadau Adeiladu yn 2025, lle disgwylir y bydd gan adeiladau newydd system wresogi carbon isel i gyrraedd safon arfaethedig Rhan L 2025.

Bydd y prosiect hwn yn adolygu Rhan L, gan adeiladu ar newidiadau 2022 i gyflwyno systemau gwresogi carbon isel. Yn ogystal, bydd y prosiect yn ystyried cyflwyno cynigion i leihau'r risg o orboethi pan gaiff gwaith adeiladu penodol ei wneud mewn anheddau presennol.

**Mater ac ystyriaethau**

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaethau cyfreithiol a thargedau o ran y gyllideb garbon i'w cyflawni o ganlyniad i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Bydd gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn effeithio ar bob maes polisi gan gynnwys ymdrechion i fynd i'r afael â pholisi newid yn yr hinsawdd. Mae datblygu cynaliadwy yn un o'r egwyddorion arweiniol sy'n sail i bolisi rheoliadau adeiladu.

Mae angen ymyrryd oherwydd mae'n bosibl na fydd y farchnad yn cyflawni arbedion carbon cost-effeithiol ar ei phen ei hun. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys:

- Ffactorau allanol - Heb drefniadau prisio carbon cynhwysfawr, nid yw adeiladwyr eiddo a meddianwyr yn talu cost lawn eu hallyriadau carbon. Mae hyn yn arwain at lefel uwch o allyriadau carbon nag sy'n fuddiol yn gymdeithasol;
- Gwybodaeth amherffaith - Gall diffyg gwybodaeth ddigonol am brisiau ynni yn y dyfodol ac effeithlonrwydd ynni eiddo atal eiddo sy'n perfformio'n well rhag cael ei brisio'n gywir gan y farchnad. Mewn sefyllfaoedd lle nad oes fawr o obaith o gael premiwm pris pan fyddant yn gwerthu'r eiddo, nid oes fawr o gymhelliant i adeiladwyr eiddo neu'r rhai sy'n ymgymryd

ag estyniadau neu waith adnewyddu fuddsoddi mewn deunyddiau a chynhyrchion mwy ynni-effeithlon;

- Diffyg cyfalaf - gallai cyfnodau ad-dalu hir ac amharodrwydd cyffredinol i gymryd risgiau atal perchnogion tai a busnesau rhag gwneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni i adeiladau presennol hyd yn oed pe byddai'r rheini yn gost-effeithiol yn y tymor canolig i'r hirdymor.
- Amharodrwydd i newid yn wirfoddol – Ar gyfer y stoc adeiladau bresennol, ceir amharodrwydd yn aml i wneud gwelliannau mewn egwyddor oni bai bod budd masnachol clir i'r gwelliannau hynny, boed hynny ar ffurf arbedion costau ynni ar unwaith neu gynnydd amlwg yng ngwerth yr eiddo a pha mor ddeniadol yw'r eiddo.

Yn ogystal â mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch, ystyrir bod y Rheoliadau Adeiladu yn fecanwaith priodol i geisio goresgyn y methiannau hyn yn y farchnad.

Y polisi arfaethedig yw i wella safonau Rhan L. Drwy ddiwygio Rhan L, gall technolegau carbon isel gael eu cloi i mewn neu eu hymgorffori ar y cam adeiladu, gan gynnwys ymgorffori lwfansau mewn adeiladau newydd fel y gellir gwneud gwelliannau carbon isel yn hawdd yn y dyfodol gan osgoi gorfod gwneud gwaith ôl-osod yn ddiweddarach, a allai gostio mwy o arian. Fodd bynnag, gan y caiff y mwyafrif o allyriadau o anheddau domestig eu priodoli ar hyn o bryd i'r stoc bresennol, cynigir ôl-osod anheddau presennol fel ffordd ychwanegol o gyfrannu at leihau allyriadau carbon yn gyffredinol, a gellir gwneud hyn fel rhan o welliannau carbon isel ychwanegol sy'n gysylltiedig â chysyniadau ar gyfer estyniadau, newid defnydd neu waith adnewyddu mawr.

Bwriedir i'r cynnig i gyflwyno targed mwy heriol ar gyfer allyriadau carbon ategu rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cynlluniau Arbed a Nyth, sy'n ceisio gwneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni i aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig ledled Cymru. Mae'n cefnogi ein hymrwymiadau i leihau newid yn yr hinsawdd, helpu i roi terfyn ar dlodi tanwydd a rhoi hwb i adfywio a datblygiad economaidd yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o'r adolygiad blaenorol yn awgrymu y gallai diwygiad i wella effeithlonrwydd drwy Ran L arwain at gynnydd mewn costau i ddatblygwyr a/neu berchenogion adeiladau presennol. Mae pryder y gallai cynnydd mewn costau arwain at leihad mewn gweithgarwch adeiladu yng Nghymru a darbwyllo perchnogion adeiladau presennol rhag ymestyn/gwella eu heiddo yn y byrdymor. Pe bai hyn yn digwydd, gallai gael effaith negyddol ar bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio a chyflenwi cartrefi fforddiadwy.

Mae'r polisi arfaethedig yn cysylltu â nifer o feysydd polisi eraill Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae tystiolaeth yn dangos yr effaith y mae ansawdd tai yn ei chael ar iechyd a llesiant cyffredinol tra bod gwaith ymchwil yn dangos bod cysylltiadau uniongyrchol rhwng tai oer a phroblemau cardiofasgwlaidd ac anadlol yn ogystal â marwolaethau ymhlith yr henoed yn y gaeaf. Gwelwyd cysylltiadau hefyd rhwng safonau tai ac iechyd meddwl, a llesiant a chyfleoedd plant/pobl ifanc.

Ni chaiff y polisi terfynol ei ddatblygu a'i roi ar waith ar ei ben ei hun. O dan adran 14(5) o Ddeddf Adeiladu 1984 mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi Pwyllgor Cynghori ar Reoliadau Adeiladu y mae'n rhaid inni ymgynghori ag ef pan fyddwn yn cynnig newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu a phrosesau cysylltiedig. Rôl y Pwyllgor yw rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar lunio a diwygio rheoliadau adeiladu, ac ar faterion cysylltiedig eraill yng Nghymru. Caiff yr aelodau eu

penodi ar sail annibynnol wirfoddol i gynrychioli meysydd arbenigedd a phrofiad penodol. Mae manylion am aelodau'r Pwyllgor ar gael yma Aelodau: Pwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu | LLYW.CYMRU. Yn ogystal â hyn, mae gweithgor technegol, sy'n cynnwys buddiannau gwahanol, wedi cael ei sefydlu i lywio'r cynigion wrth iddynt fynd yn eu blaenau. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion hefyd.

## Casgliad

Mae'r adolygiad o Ran L yn cefnogi'r nodau o greu Cymru sy'n fwy llewyrchus a chydnerth, gan helpu i wella effeithlonrwydd y broses ddylunio ac adeiladu a sicrhau bod gofynion y rheoliadau adeiladu yn cael eu bodloni mewn ffordd systematig er mwyn ceisio atal gwaith ofer a gwastraffu adnoddau. Ar gyfer adeiladau newydd, rydym yn cynnig y dylai systemau gwresogi carbon isel fod yn rhan annatod o'r fanyleb ac felly ni ddylai fod angen gwneud unrhyw waith pellach i adeiladau a gaiff eu hadeiladu yn unol â'r safon er mwyn cyflawni dim allyriadau carbon yn y dyfodol wrth i'r grid trydan ddatgarboneiddio. Mae'r adolygiad hefyd yn ceisio dechrau mynd i'r afael â safon y stoc adeiladau bresennol yng Nghymru er mwyn cyflwyno gwelliannau canlyniadol pellach ar gyfer adeiladau presennol a fydd yn helpu Cymru i symud ymlaen tuag at gyflawni dim allyriadau carbon ar draws yr amgylchedd adeiledig cyfan.

# ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

## 2.1 Pobl a Chymunedau

Bydd cynlluniau datblygu yn mynd i'r afael â datblygu cynaliadwy/arbed ynni drwy waith dylunio o ansawdd uchel. Bydd y gwelliannau a wneir i adeiladau o ganlyniad i unrhyw ddiwygiad o fudd i bobl a chymunedau yn gyffredinol. Ond mae'n gwneud synnwyr wedyn y bydd unrhyw bolisi sy'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni a thermol eiddo newydd a phresennol (pan gaiff eiddo ei ymestyn/adnewyddu) yn gwella iechyd a llesiant y rhai sydd â phroblemau cardiofasgwlaidd ac anadlol ac yn lleihau cyfraddau marwolaethau ymhlith yr henoed yn y gaeaf yn benodol. Bydd lleihau costau gwresogi'r stoc adeiladau bresennol a newydd yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar incwm gwario'r gymuned ac felly yn cynyddu ffyniant yn yr hirdymor.

## 2.2 Hawliau Plant

Rhoddwyd sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'n annhebygol iawn y bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r safonau technegol ar gyfer effeithlonrwydd ynni a thanwydd yn y Rheoliadau Adeiladu a Dogfen Gymeradwy L (y ddwy gyfrol) yn cael effaith andwyol ar CCUHP neu ei brotocolau ac, o ystyried eu cynnwys, nid oes fawr o gyfle i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn drwy'r darn penodol hwn o waith.

Felly, nid ystyrir bod angen cynnal Asesiad Effaith Llawn.

Bydd gwella perfformiad thermol y stoc adeiladau yn golygu y dylai mwy o deuluoedd gael eu tynnu allan o dlodi tanwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r ffaith na fydd angen iddynt ddefnyddio cymaint o danwydd i wresogi eu cartrefi a'u gweithleoedd, ac mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â lleihau'r effeithiau niferus y gall tlodi tanwydd eu cael ar blant (gweler Fuel Poverty FINAL a New Report Outlines Devastating Impact of Fuel Poverty on Children | Fuel Bank Foundation).

## 2.3 Cydraddoldeb

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried yr angen i wneud y canlynol: dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r cynigion yn debygol o gael effaith niwtral o safbwynt hil, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd. Gellid ystyried bod y polisi yn cael effaith gadarnhaol fach o safbwynt diogelu pobl mewn grwpiau oedran sy'n agored i niwed a phobl ag anabledd neu salwch hirdymor. Fel y nodir yn yr adran 'Iechyd a Llesiant', mae tystiolaeth i ddangos bod cysylltiad rhwng tai oer a marwolaethau ychwanegol yn ystod y gaeaf – y mae'r mwyafrif ohonynt yn digwydd ymhlith grwpiau oedran hŷn – a rhwng tai oer a chanlyniadau iechyd andwyol nad ydynt yn angheuol sydd, unwaith eto, yn effeithio ar grwpiau oedran hŷn yn benodol ac, i raddau llai, blant ifanc a'r rhai sydd ag anabledd neu salwch hirdymor a chyflyrau terfynol (gweler FP7- Marie Curie Wales.pdf).

Mae'r cynigion yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar rai grwpiau rhywedd lle mae data Eurofound o 2022, er enghraifft, yn dangos bod mamau sengl neu fenywod sengl eraill yn fwy tebygol o gael anhawster talu eu biliau ynni na dynion sengl o ganlyniad i anghydraddoldebau parhaus mewn cyflog rhwng dynion a menywod (gweler International Women’s Day: the gender aspects of energy poverty | Topics | European Parliament a Gender pay gap in Europe: facts and figures (infographic) | Topics | European Parliament ** *nid data'r DU*, ac adroddiad Cyngor Partneriaeth y Gweithlu: Gwaith teg – y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a data graddfa tâl lefel uwch [HTML] | LLYW.CYMRU )

Mae'r asesiad effaith llawn a gwblhawyd ar gael yn Atodiad B.

## 2.4 Prawfesur Gwledig

Nid yw'r cynigion yn hysbys ar hyn o bryd; fodd bynnag, amlinellodd yr adolygiad blaenorol y nod o newid i wresogi carbon isel mewn adeiladau newydd. Mae'r mwyafrif o anheddau domestig presennol nad ydynt ar y grid nwy wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig lle nad yw cysylltu cartrefi â'r grid nwy yn hyfyw nac yn ddichonadwy yn economaidd. Yn y lleoliadau hyn, mae'n rhaid i adeiladwyr ddewis tanwydd arall fel LPG, olew neu wresogi trydan. Ar hyn o bryd, o ganlyniad i'r gwahaniaeth mewn tanwydd, gallai bodloni'r gofynion newydd gostio mwy o gymharu â chartref mewn ardal drefol ond gan mai nod yr adolygiad hwn yw cyflwyno gwresogi carbon isel i bob cartref newydd, ni ddisgwylir costau uwch mewn cymhariaeth.  Mae posibilrwydd hefyd y bydd y cynigion yn cynyddu costau gwaith, a fydd yn lleihau nifer y tai. Gallai hyn effeithio ar hyfywedd tai fforddiadwy, sy'n brin mewn ardaloedd gwledig.

Bydd y cynigion yn fanteisiol i'r boblogaeth wledig. Mae dwywaith cymaint o dlodi tanwydd yn ardaloedd gwledig Cymru o gymharu ag ardaloedd trefol Cymru (ki-011-cymraeg.pdf) a bydd gwella perfformiad ynni tai yn lleihau tlodi tanwydd ac yn cynyddu ansawdd yr amgylchedd tai, gan wella iechyd a llesiant, yn enwedig ymhlith pobl hŷn.

Nid oes yn rhaid bod yn agos i rwydweithiau dosbarthu nwy i ddefnyddio technolegau gwresogi carbon isel ac felly bydd gosod technolegau gwresogi carbon isel yr un mor hygyrch mewn eiddo gwledig ag y bydd mewn ardaloedd trefol, sy'n golygu y bydd defnyddio technolegau gwresogi carbon isel yn hollbwysig er mwyn lleihau'r anghydraddoldebau rhwng darpariaethau gwresogi tai gwledig a threfol.

Er y nodwyd y gallai'r polisi gael rhywfaint o effaith ar ardaloedd gwledig, nid ystyrir bod yr effeithiau a nodwyd yn ddigon sylweddol i warantu cynnal asesiad llawn o'r effaith ar ardaloedd gwledig.

## 2.5 Iechyd

Mae llawer o dystiolaeth ar gael o'r effaith y mae ansawdd tai yn ei chael ar iechyd a llesiant cyffredinol (gweler, er enghraifft, *Geddes et al 2011*).[1] Mae gwaith ymchwil yn dangos bod cysylltiadau uniongyrchol rhwng tai oer a phroblemau cardiofasgwlaidd ac anadlol yn ogystal â marwolaethau ymhlith yr henoed yn y gaeaf. Gwelwyd cysylltiadau hefyd rhwng safonau tai ac iechyd meddwl, a llesiant a chyfleoedd plant/pobl ifanc. Mae'n gwneud synnwyr wedyn y gallai unrhyw bolisi sy'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni a thermol eiddo newydd a phresennol (pan gaiff eiddo ei ymestyn/adnewyddu) wella iechyd a llesiant.

Wrth gynyddu gwelliannau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau, mae'n bosibl y gallai hynny effeithio ar ansawdd aer y tu mewn i'r adeiladau hynny ac arwain at orboethi mewn cartrefi. Yn benodol, awgrymwyd bod tynhau amlenni adeiladau yn arwain at lai o awyru ac yn golygu y gallai llygryddion mewnol gynyddu. Er mwyn cyfyngu ar unrhyw effeithiau posibl, bydd yr adolygiad yn ystyried goblygiadau anfwriadol hysbys a allai godi yn sgil gwelliannau i fesurau effeithlonrwydd ynni a'r camau ymarferol y gallem eu cymryd i leihau'r risg o ansawdd aer mewnol gwael a gorboethi gan gynnwys yr un ystyriaethau mewn perthynas â Syndrom Adeilad Gwael (gweler OC 311/2: Sick building syndrome). Dylai'r camau i ddiweddaru'r canllawiau awyru sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau adeiladu sicrhau bod anheddau'n cydymffurfio'n well â safonau awyru rheoledig er mwyn gwella ansawdd aer o fewn anheddau a chreu amgylchedd iachach i fyw ynddo.
Nid ystyrir bod angen asesiad manylach o'r effaith ar iechyd ar gyfer y prosiect hwn.

## 2.6 Preifatrwydd a Rheoli Data

O safbwynt prosesu data personol, mae hyn wedi'i gyfyngu i gyfeiriad bach iawn at y trydydd partïon allanol hynny sydd am werthuso meddalwedd asesu HEM sy'n darparu cyfeiriadau e-bost at ddibenion adborth gan y cwmni lletya allanol (BRE). Caiff gwybodaeth gyswllt at ddibenion adborth (cyfeiriad e-bost yn unig) ei rhoi wrth ddefnyddio meddalwedd werthuso HEM ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus i asesu gwaith modelu effeithlonrwydd ynni HEM fel rhan o'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y newidiadau arfaethedig hyn i reoliadau adeiladu.

Caiff meddalwedd werthuso'r ymgynghoriad cyhoeddus ei lletya ar rwydwaith trydydd parti ac nid ar systemau rhwydwaith Llywodraeth Cymru, felly ni chaiff unrhyw ddata eu casglu o ganlyniad i ddefnyddio'r feddalwedd werthuso. (Meddalwedd HEM a gaiff ei lletya gan BRE)

Nid oes angen casglu gwybodaeth na data ar rwydweithiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwelliannau arfaethedig i safonau'r rheoliadau adeiladu o dan Ddogfen Gymeradwy L gan mai dim

[1] Geddes, I., Bloomer, E., Allen, J. a Goldblatt, P. The Health Impacts of Cold Homes and Fuel Poverty - Marmot Review Team, Adran Epidemioleg ac Iechyd y Cyhoedd, Coleg Prifysgol Llundain, Mai 2011

ond ymestyn gofynion safonau polisi y mae'r cynigion yn ei wneud, felly nid ystyir bod angen Asesiad Effaith Llawn ar gyfer y prosiect hwn.

# ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

## 3.1 Llesiant Diwylliannol

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw *'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'*. Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys hunaniaeth a nodweddion diwylliannol Cymreig gan gynnwys yr amgylchedd hanesyddol adeiledig yn ogystal â threftadaeth anniriaethol fel traddodiadau; mae'r celfyddydau yn cwmpasu'r sector perfformio a'r sector creadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, y theatr a chelf, tra bod chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elît a chymunedol yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ehangach.

Adolygiad o Ran L ar arbed ynni a thanwydd mewn adeiladu yw'r prosiect. Bydd unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol yn effeithio ar y mathau o adeiladwaith a ddefnyddir ar gyfer eiddo newydd ac addasiadau i adeiladau presennol. Nid oes unrhyw gysylltiadau clir rhwng y cynigion a chyfrannu at y nod o hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Yn dechnegol, gallai safonau adeiladu uwch effeithio ar waith i adnewyddu adeiladau presennol o werth diwylliannol ond, yn gyffredinol, nid yw gofynion effeithlonrwydd ynni'r rheoliadau adeiladu yn gymwys i adeiladau hanesyddol neu adeiladau rhestredig lle byddai cydymffurfiaeth yn newid eu cymeriad neu'u hymddangosiad yn annerbyniol, gan wrthbwyso unrhyw effaith negyddol ar ddiwylliant neu amgylchedd treftadaeth adeiledig Cymru.

Nid ystyrir bod angen asesiad manylach o'r effaith ar lesiant diwylliannol ar gyfer y prosiect hwn.

## 3.2 Y Gymraeg

Nid oes cysylltiadau arwyddocaol rhwng y cynigion polisi a'r Gymraeg. Ni ddisgwylir i'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo, cefnogi neu ddatblygu'r Gymraeg ac ni ddisgwylir iddynt gael effaith negyddol ar gymunedau Cymraeg na gwasanaethau Cymraeg ychwaith.

Mae'r asesiad effaith llawn ar gael yn atodiad E.

# ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae cefnogi twf economi Cymru a, thrwy hynny, fynd i'r afael â thlodi, wrth wraidd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

## 4.1 Busnesau, y cyhoedd ac unigolion

**Effaith ar Gystadleuaeth**
Y prif farchnadoedd y mae newidiadau i Ran L y Rheoliadau Adeiladu yn effeithio arnynt yw'r rhai sy'n datblygu eiddo domestig ac annomestig newydd ac yn adnewyddu eiddo presennol. Gallent hefyd effeithio ar y cadwyni cyflenwi ar gyfer cynhyrchu deunyddiau a ddefnyddir yn y marchnadoedd a nodir ac, o bosibl, ar elfennau eraill o'r eiddo, yn enwedig ym maes adnewyddu lle gallai ffactorau ychwanegol fod yn ofynnol (er enghraifft, atgyfnerthu'r strwythur, ailosod ffitiadau a phethau tebyg).

Mae'r safonau uwch arfaethedig yn golygu y bydd yn rhaid i gontractwyr adeiladu gyrraedd targedau effeithlonrwydd ynni ac allyriadau adeiladau mwy heriol. O ganlyniad i hyn, disgwylir i gostau cyfalaf gynyddu. Disgwylir i rywfaint o'r cynnydd hwn mewn costau gael ei drosglwyddo i berchnogion tir (drwy werthoedd tir is) a'r perchnogion yn y pen draw (drwy brisiau eiddo uwch).

Mae disgwyl i'r cynnydd mewn costau cynhyrchu effeithio ar bob contractwr adeiladu yn gyfartal ar y cyfan ac mae cyfran y costau ychwanegol na ellir ei throsglwyddo i berchnogion tir neu'r prynwyr yn y pen draw yn debygol o gynrychioli canran gyfrannol o gostau adeiladu cyffredinol. Felly, mae unrhyw effeithiau cystadleuol posibl ar gontractwyr adeiladu yn debygol o fod yn fach. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd datblygwyr llai â llai o bŵer prynu yn wynebu cynnydd uwch mewn costau ar gyfartaledd na busnesau mwy ond mae hyn bob amser wedi bod yn wir yn gyffredinol o safbwynt contractwyr adeiladu llai.

Gallai'r safonau newydd gael effaith ar weithgynhyrchwyr a chyflenwyr i'r diwydiant adeiladu drwy gynyddu'r galw am ddeunyddiau a chynhyrchion manyleb uwch. Gallai'r newidiadau i'r rheoliadau gael effaith andwyol ar gyflenwyr cynhyrchion a deunyddiau isel eu cost neu isel eu hansawdd neu wneud iddynt ystyried yr angen i wella perfformiad eu cynhyrchion a fydd hefyd yn debygol o arwain at gostau uwch. Fodd bynnag, mae disgwyl i'r newid i'r rheoliadau hefyd arwain at fwy o gyfleoedd i weithgynhyrchwyr a chyflenwyr technolegau cynhyrchu carbon isel/di-garbon a chynhyrchion effeithlonrwydd ynni uchel.

**Effaith ar Fusnesau Bach a Chanolig**
Ystyrir bod y mwyafrif o fusnesau yn y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn fusnesau bach neu ganolig (BBaCh). Mae ystadegau Llywodraeth Cymru (Dadansoddiad o Faint Busnesau yng Nghymru, 2023) yn dangos bod tua 43,420 o fusnesau adeiladu (gan gynnwys unigolion hunangyflogedig) yn gweithredu yng Nghymru yn 2023. O'r rhain, roedd 97.6 y cant yn ficrofusnesau (cyflogi rhwng 0 a 9 o bobl), 1.9 y cant yn fusnesau bach (10-49 o gyflogeion) a 0.3 y cant yn fusnesau canolig (50-249 o gyflogeion). Roedd y 0.2 y cant arall o fusnesau yn rhai mawr

(250+ o gyflogeion). Er mai BBaChau yw'r mwyafrif o fusnesau yn y sector, caiff cyfran sylweddol o weithgarwch adeiladu (yn nhermau nifer yr eiddo newydd a adeiladir) ei chyflawni gan gwmnïau mwy. Roedd adeiladwyr bach yn gyfrifol am 12% o dai newydd yn 2017[2].

Dywedir yn adroddiad Savills (Savills SME housebuilders report demonstrates huge potential – LDS) mae cyfran y cartrefi a adeiladir gan BBaChau wedi gostwng o 39% ers 1988:

*"Following the financial crash there was a huge decline in the number of SMEs operating in the market, with the industry becoming increasingly dependent on a small number of big housebuilders. Whilst these play an important role, they cannot construct the homes the country needs alone and their dominant position can result in reduced consumer choice and the slower build out of sites."*

Gallai adfer adeiladwyr tai BBaCh i'w lefelau hanesyddol yng Nghymru a Lloegr ddarparu mwy na 55,000 o gartrefi newydd ychwanegol bob blwyddyn, gan ychwanegu £12.9bn  y flwyddyn mewn Gwerth Ychwanegol Gros, a chefnogi bron i 200,000 o swyddi yn y diwydiant adeiladu (*ffynhonnell: Savills SME housebuilders report demonstrates huge potential - LDS*) Gallai rhoi cyfle newydd i BBaChau yng Nghymru uwchsgilio ac ymgymryd â gweithrediadau newydd sy'n gysylltedig â'r cynigion hyn roi hwb i weithgarwch economaidd a chryfhau gwaith adeiladu tai gan BBaChau yn y dyfodol yng Nghymru.

Bydd y busnesau y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnynt yn cynnwys cwmnïau bach sy'n codi adeiladau newydd ac estyniadau, cwmnïau sy'n gweithgynhyrchu deunyddiau adeiladu, gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr offer adnewyddadwy fel paneli ffotofoltäig a phympiau gwres a'r rhai sy'n gosod mesurau effeithlonrwydd ynni fel deunydd inswleiddio atig a waliau ceudod. Mae sawl ffordd y gallai'r cynigion effeithio'n anghymesur ar fusnesau bach o gymharu â busnesau mwy.

Gallai fod rhai cynhyrchion manyleb uwch sydd ond yn cael eu cynhyrchu gan weithgynhyrchwyr mawr neu dramor ar hyn o bryd a/neu gallai fod yn anos i weithgynhyrchwyr bach newid i gynhyrchu deunyddiau adeiladu manyleb uwch na gweithgynhyrchwyr mwy, gan gynnwys y profiad a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer dulliau a deunyddiau adeiladu newydd. Os bydd galw am y cynhyrchion hyn ymhlith y rhai sy'n codi adeiladau, mae'n bosibl y bydd gan gwmnïau mwy fantais wrth sicrhau cyflenwad, gan arwain at fwy o oedi i ddatblygwyr llai. Gallai cwmnïau mwy hefyd fod yn gyflogwyr mwy deniadol i'r gweithwyr medrus hynny sydd eu hangen ar gyfer technolegau newydd.

Mae perygl y bydd ymestyn y gofynion i liniaru risgiau gorboethi mewn anheddau presennol yn darbwyllo rhai perchnogion tai a busnesau rhag ymgymryd â phrosiectau adeiladu a gwelliannau bach. Gallai hyn gael effaith negyddol ar fusnesau bach.

---

[2] https://www.hbf.co.uk/documents/6879/HBF_SME_Report_2017_Web.pdf

Ar y llaw arall, gallai'r gofyniad i wneud gwelliannau er mwyn lliniaru gorboethi pan gaiff gwaith penodol ei wneud ar adeiladau domestig greu marchnad newydd sylweddol (neu fwy o faint) i gwmnïau llai. Bydd cryn dipyn o'r gwaith hwn yn rhan o'r gwaith y mae cwmnïau bach yn ei wneud eisoes, neu'n debyg iawn iddo.

Yn gyffredinol, mae posibilrwydd y byddai unrhyw welliant yn effeithio'n andwyol ar adeiladwyr bach gan ei bod yn anos iddynt addasu i ofynion newydd na chwmnïau mwy ond nid yw hynny'n golygu y byddant o dan anfantais barhaol, dim ond nes y byddant wedi mynd i'r afael â'r newidiadau ar gyfer eu hanghenion busnes eu hunain.

Mae modd lleihau'r effaith hon drwy gael cyfnod rhagarweiniol hir a threfniadau trosiannol priodol a dyma'r rheswm pam y cafodd cyfnod rhagarweiniol o 5 mlynedd ei gynnwys o'r dechrau er mwyn rhoi digon o amser i'r diwydiant addasu ac uwchsgilio yn barod ar gyfer y safonau newydd.

Mae asesiad llawn o'r effaith ariannol wedi cael ei gynnal ar y cam ymgynghori gan Adroit Economics ar ran Llywodraeth Cymru: (Cyf: *Building Regulations Review: Changes to Part L (conservation of fuel and power); Part F (ventilation) and Part O (overheating); of the Building Regulations: Consultation Stage Impact Assessment – June 2025)*

Ymgyngoriadau | LLYW.CYMRU

**4.2 Y sector cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill**

Mae adran ragarweiniol gefndirol yr asesiad hwn eisoes wedi amlinellu'r nodau ar gyfer diweddaru gofynion effeithlonrwydd ynni'r rheoliadau adeiladu wrth i Gymru symud ymlaen tuag at statws di-garbon yn 2050 a bydd adeiladau sy'n perfformio'n well ar draws y sector cyfan yn chwarae rhan bwysig ar y daith honno tuag at fod yn garbon niwtral.

Bydd yr effaith debygol ar y sector cyhoeddus fel a ganlyn:

Cadarnhaol:

- Helpu'r sector cyhoeddus i gyrraedd ei dargedau polisi
- Lleihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil er budd yr ystad gyhoeddus
- Lleihau effeithiau anwadalrwydd costau tanwydd a rhoi mwy o sicrwydd wrth gynllunio costau
- Mwy o hunanreolaeth dros gynhyrchu ynni
- Bydd cyflwyno technoleg newydd fel safon ofynnol yn golygu y bydd yn rhaid i'r sector cyhoeddus addasu gyda sgiliau newydd a phrofiad i gyflawni'r gwelliannau.

Negyddol:

- Costau cyfalaf ychwanegol i uwchraddio
- Costau cyfalaf ychwanegol i uwchsgilio
- Mwy o ddibyniaeth ar dechnoleg i gyrraedd y targedau, ac yn agored i amrywiadau cost os bydd y galedwedd yn dod o'r tu allan i Gymru a'r DU

- Mwy o wariant i gyflawni'r nodau drwy dechnolegau newydd ac felly bydd angen cydbwyso'r gyllideb gyhoeddus â sectorau eraill sydd yr un mor haeddiannol.

## 4.3 Y Trydydd Sector

Rhagwelir y bydd yr effaith ar sefydliadau trydydd sector yn fach am mai ymestyn gofynion technegol presennol sydd eisoes yn gyfarwydd i'r sector a chynulleidfa ehangach y mae'r cynigion hyn, a dylai gwella safonau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni fod yn ddilyniant naturiol i'r sectorau hynny sy'n eu defnyddio yn barod.

## 4.4 Yr Effaith ar Gyfiawnder

Nid yw'r cynnig hwn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Nid yw'r cynnig yn ymwneud ag unrhyw drosedd sydd heb ei sefydlu'n barod drwy ofynion cydymffurfio'r Rheoliadau Adeiladu a'r Ddeddf Adeiladu.

Bydd y cynnig yn gwella'r mesurau arbed ynni a sefydlwyd eisoes ar gyfer adeiladau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau Adeiladu ac felly ni ragwelir y bydd gwella perfformiad thermol adeiladau yn cael effaith fesuradwy ar y system gyfiawnder.

# ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

O dan Adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol a chymryd pob cam rhesymol i'w roi ar waith ac annog eraill i gymryd camau o'r fath.  Cyhoeddwyd y Polisi Adnoddau Naturiol ym mis Awst 2017.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn ofynnol ar gyfer pob cynnig:** | • Blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol | 5.1a<br>5.1b |
| **Yn ofynnol ar gyfer pob cynnig** | • Bioamrywiaeth | 5.2 ac Atodiad F |
| **Yn ofynnol ar gyfer pob cynnig** | • Newid yn yr Hinsawdd | 5.3 |
| Cynlluniau a rhaglenni penodol y mae'n ofynnol cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol ar eu cyfer o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 | • Asesiad Amgylcheddol Strategol | 5.4 a Chanllawiau ar gyfer Asesiad Effaith Integredig |
| Cynigion a allai effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth<br>Arbennig: | • Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | 5.5 a Chanllawiau ar gyfer Asesiad Effaith Integredig |
| Prosiectau penodol sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref; trafnidiaeth; amaethyddiaeth; coedwigaeth; morol, draenio tir; a thrydan y mae'n ofynnol | • Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | 5.6 a Chanllawiau ar gyfer Asesiad Effaith Integredig |

| | | |
|---|---|---|
| cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) ar eu cyfer o dan wahanol Reoliadau AEA | | |

## 5.1 Adnoddau Naturiol

- Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur;
    - Bydd y cynigion yn gwella safonau arbed ynni gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu presennol ac, o ganlyniad, yn gwneud adeiladau a systemau adeiladu yn fwy ynni effeithlon wrth symud tuag at nod Llywodraeth Cymru o fod yn garbon niwtral erbyn 2050.
    - Nid yw'r safonau ynni uwch arfaethedig yn cyfrannu'n uniongyrchol eu hunain at atebion sy'n seiliedig ar natur ond maent yn cyfrannu drwy gysylltiad at sicrhau y bydd angen llai o ynni ar bob adeilad yn y dyfodol yng Nghymru ar gyfer gwresogi a dŵr poeth ac o ganlyniad i hynny, byddant yn lleihau'r effaith gyffredinol ar natur a'r gymdeithas a byddant yn fuddiol er mwyn lleihau'r lefelau carbon a gynhyrchir yn yr amgylchedd adeiledig.
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; ac wrth wneud hynny,
    - Mae'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn cael effaith fuddiol uniongyrchol a sylweddol ar effeithlonrwydd ynni ac adnoddau drwy welliannau i safonau inswleiddio a fydd yn golygu y bydd angen llai o ynni i wresogi cartrefi a dŵr, ychwanegu ffynonellau ynni adnewyddadwy fel celloedd ffotofoltäig i gynhyrchu trydan ar y safle, paneli dŵr solar fel bod angen llai o ynni i gynhesu dŵr a defnyddio technolegau fel Pympiau Gwres o'r Aer a chyfnewidwyr adfer gwres i wresogi gofod a dŵr poeth fel na bod angen boeleri nwy dros amser.
- Gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar le.
    - Mae'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni yn ddigon hyblyg fel y gellir gweithio mewn ffordd leol gan addasu elfennau cyfrannol yr adeilad i gyd-fynd â'i amgylchedd a'i ardal, sy'n golygu bod y safonau arfaethedig yn ceisio darparu atebion i sicrhau'r rheoliadau a fydd yn gweddu i'r rhan fwyaf o leoliadau.
- Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth – drwy ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth;

  - Ni fydd y gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yn cael effaith fesuradwy ar rwydweithiau ecolegol, ond bydd y ddibyniaeth uwch ar dechnolegau arbed ynni goddefol (gofynion inswleiddio uwch) ynghyd â dulliau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle (paneli ffotofoltäig, paneli solar a phympiau gwres) yn arwain at leihad ystyrlon yn y ddibyniaeth ar ffynonellau ynni nad ydynt yn adnewyddadwy ac o ganlyniad uniongyrchol, bydd hyn yn helpu Cymru i symud tuag at y targed di-garbon.

  - Dylai'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau hefyd fod yn ffordd uniongyrchol o leihau allyriadau o systemau gwresogi nwy ac olew am y bydd y safonau newydd yn golygu na fydd ffynonellau gwresogi nwy ac olew yn cyrraedd y lefel sydd ei hangen i gael cymeradwyaeth o dan y Rheoliadau Adeiladu mwyach ac felly dylai hyn arwain at welliannau yn ansawdd cyffredinol yr amgylchedd ecolegol yng Nghymru am y bydd llai o allyriadau.

- Diogelu a chynyddu storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas;

  - Bydd y gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yn cael effaith fuddiol uniongyrchol ar leihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil am y bydd y safonau newydd yn golygu y bydd yn eithriadol o anodd cyfiawnhau boeleri nwy ac olew fel rhan o fanyleb wresogi cartrefi ac adeiladau yn y dyfodol. Dylai'r lleihad yn y galw am nwy ac olew olygu na fydd angen echdynnu cymaint ac felly bydd hyn yn diogelu'r storfeydd carbon presennol.

- Cynnal gallu cynhyrchiol, yn arbennig drwy wella ansawdd a bioddiogelwch y pridd;

  - **Ddim yn gymwys**, nid oes unrhyw gysylltiad rhwng y gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau ac ansawdd a bioddiogelwch y pridd.

- Lleihau'r risg o lifogydd;

  - Dylai'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau, drwy eu gofynion o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy a rhoi'r gorau i ddefnyddio systemau gwresogi tanwydd ffosil, wneud cyfraniad cadarnhaol at leihau cynhesu byd-eang a byddai disgwyl i hynny helpu i leihau llifogydd wrth i Gymru symud tuag at fod yn genedl garbon niwtral.

- Cefnogi’r broses o liniaru ac ymaddasu i newid yn yr hinsawdd drwy ddulliau rheoli ar lefel yr ecosystem;

  - Nid yw'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yn effeithio'n uniongyrchol ar ecosystemau yng Nghymru ond byddant yn paratoi'r ffordd i liniaru newid yn yr hinsawdd drwy leihau ac, yn y pen draw, roi terfyn ar y ddibyniaeth

ar danwyddau ffosil i wresogi tai newydd, ac felly byddant yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i liniaru newid yn yr hinsawdd.

- Lleihau lefelau llygredd sŵn a llygredd yn ein haer, a gwella ansawdd aer;
  - Bydd y gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yn galw am fwy o inswleiddio thermol mewn adeiladau a fydd yn cynnwys elfennau fel newid o wydr dwbl i wydr triphlyg ac un canlyniad tebygol fydd gwelliant o ran inswleiddio sain mewn anheddau. Er mwyn cael cydsyniad o dan y Rheoliadau Adeiladu, bydd y safonau newydd hyn yn galw am lefelau uwch o aerglosrwydd a fydd unwaith eto yn gwella lefelau inswleiddio sain mewn anheddau ac adeiladau. I'r gwrthwyneb, byddai disgwyl lefelau uwch o inswleiddio sŵn hefyd o ffynonellau o fewn yr adeiladau, er enghraifft, cerddoriaeth uchel, sy'n golygu y gallai seinwedd yr amgylchedd allanol wella ychydig o ganlyniad i fanteision canlynliadol lefel uwch o aerglosrwydd ac inswleiddio mewn adeiladau.
  - Gallai'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau hefyd olygu y bydd systemau awyru mecanyddol yn dod yn fwy cyffredin mewn anheddau yn y dyfodol wrth i lefelau aerglosrwydd ac inswleiddio wella a bydd y systemau awyru mecanyddol hyn yn cynnwys hidlyddion i wella ansawdd aer yn yr annedd yn sylweddol.
- Gwella ansawdd dŵr a sicrhau cyflenwad digonol ohono;
  - **Ddim yn gymwys**, nid yw'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yn ymdrin â materion ansawdd dŵr. O ganlyniad i leihau'r ddibyniaeth ar systemau gwresogi tanwydd ffosil, byddai'n rhesymol disgwyl gweld gwelliannau amgylcheddol cyffredinol.
- Gweithredu i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol, megis drwy effeithlonrwydd adnoddau ac ynni adnewyddadwy;
  - Bydd y gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yn lleihau'r pwysau ar adnoddau naturiol am y bydd angen gwneud mwy o ddefnydd o dechnolegau adnewyddadwy a bydd mwy o effeithlonrwydd o safbwynt inswleiddio fel rhan o'r rheoliadau estynedig.
- Cefnogi dulliau ataliol ar gyfer canlyniadau iechyd, â ffocws penodol ar faterion allweddol o safbwynt iechyd y cyhoedd sef llygredd aer a sŵn a achosir gan drafnidiaeth, mynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl;
  - **Ddim yn uniongyrchol gymwys**, mae'n debygol y bydd y gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yn arwain at fanteision iechyd yn yr anheddau a gaiff eu hadeiladu yn unol â safonau estynedig yn y dyfodol am y byddant

yn rhoi'r gorau i ddefnyddio ffynonellau gwresogi sy'n llosgi tanwydd ffosil, yn rhoi mwy o gysur thermol i feddianwyr, ac yn gwella amodau byw o fewn anheddau newydd ac adeiladau nad ydynt yn anheddau.

- Gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd;
  - Ddim yn gymwys i'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau, ond bydd cyflwyno technolegau adnewyddadwy fel paneli ffotofoltäig sy'n cynhyrchu trydan ar y safle, pympiau gwres i ddarparu gwres am gost isel, rhoi'r gorau i ddefnyddio boeleri tanwydd ffosil gan leihau costau sy'n gysylltiedig â'r cyflenwad ynni a thaliadau sefydlog, safonau inswleiddio uwch fel bod llai o ynni yn cael ei ddefnyddio i wresogi'r cartref, i gyd yn lleihau costau gwresogi i'r meddiannydd.
- Cefnogi cydlyniant cymunedol;
  - **Ddim yn gymwys** i'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau heblaw am leihau'r bwlch rhwng cymunedau trefol a gwledig am na fydd technolegau gwresogi carbon isel wedi'u cyfyngu ar sail agosrwydd at rwydweithiau nwy (neu ddiffyg rhwydweithiau nwy) yn y dyfodol.
- Cefnogi cyflogaeth sicr a sefydlog.
  - **Ddim yn gymwys** i'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau heblaw am gyflwyno maes newydd o waith am fod angen mwy o osodwyr technolegau carbon isel medrus.

## 5.2 Bioamrywiaeth

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid cwblhau asesiad effaith llawn sydd i'w weld yn Atodiad F.

Gweler Atodiad F

## 5.3 Newid yn yr Hinsawdd

### 5.3a Carbon

Mae swyddogion wedi cynnal asesiad llawn o'r effaith ar garbon. Rydym o'r farn y bydd gostyngiad net sylweddol o rhwng 1.7418 a 1.8601 miliwn o dunelli o CO2e. Rydym yn hyderus iawn fod ein hasesiad yn gywir.

Os ydych wedi cwblhau asesiad carbon llawn, atebwch y cwestiynau canlynol:

1. **Cynllun gweithredu**

A yw'r cynnig hwn yn gyson â chynllun diweddaraf Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau, sef Cymru Sero Net? - Ydy

2. **Pontio teg**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddull pontio teg wrth gyflawni sero net erbyn 2050. Ydych chi wedi ystyried goblygiadau'r cynnig hwn o safbwynt pontio teg? - Ydyn

Mae'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru wedi cael eu datblygu ar ôl i'r gweithgor ymgysylltu'n helaeth ag arbenigwyr ac ymgynghorwyr ym maes effeithlonrwydd ynni a ffynonellau ynni di-garbon neu garbon isel, gan gynnwys trafodaethau a chyfarfodydd â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu a'r gwledydd datganoledig eraill sydd ar lwybrau tebyg i'r gwelliannau arfaethedig o ran effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau a fydd yn eu helpu i fod yn garbon niwtral erbyn 2050.

Mae dadansoddiad o gostau a manteision yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gan economyddion mewn perthynas â'r gofynion gwella arfaethedig gan werthuso cost-effeithiolrwydd yr opsiynau sy'n arwain at y gwelliannau arfaethedig presennol hyn.

Y cam hwn yw'r cam ymgynghori cyhoeddus sy'n rhoi gwahoddiad agored i bawb gymryd rhan a rhoi eu barn ar y cynigion. Yn dilyn hyn, caiff yr ymatebion eu dadansoddi a chaiff ymateb Llywodraeth Cymru ei baratoi ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau i'r cynigion cyn i'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni gael eu cyflwyno'n derfynol i'r Gweinidogion i'w mabwysiadu.

## 5.3b Y gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd

A fydd unrhyw un o'r risgiau a nodir yn Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU yn effeithio ar y cynnig hwn? - Na

A fydd y cynnig hwn yn gwaethygu unrhyw un o'r risgiau a nodir yn Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU? - Na

A fydd y cynnig hwn yn lleihau unrhyw un o'r risgiau a nodir yn Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU? - Bydd

Bydd y gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn gwella safonau inswleiddio mewn adeiladau, yn lleihau nwyon tŷ gwydr, yn dod â'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil ar gyfer gwresogi a dŵr poeth i ben, yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio dulliau cynhyrchu ynni ac adfer gwres i gael cydsyniad o dan y Rheoliadau Adeiladu ac ar y cyd, bydd y rhain yn golygu y bydd anheddau ac adeiladau eraill yn defnyddio llai o ynni a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at leihau ffactorau achosol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd wrth symud tuag at Gymru sy'n garbon niwtral erbyn 2050. O safbwynt addasu i newid yn yr hinsawdd, mae'r cynigion hefyd yn ymestyn gofynion i liniaru'r risg o orboethi pan gaiff gwaith adeiladu penodol ei wneud mewn anheddau presennol.

## 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol

***AAS C1. Ydy eich cynllun, rhaglen neu strategaeth yn ymwneud ag unrhyw rai o'r canlynol: amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, rheoli dŵr, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir?***

- **Nid yw'r** gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn ymwneud â'r categorïau hyn sy'n rhan o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Drwy gysylltiad canlyniadol, gallai'r Rheoliadau Adeiladu fod yn rhan o ddatblygiadau o fewn rhai o'r categorïau hyn mewn perthynas ag adeiladau a ddefnyddir ganddynt ond nid ydynt yn effeithio ar y swyddogaethau categori craidd eu hunain, felly'r ateb i AAS-C1 yw: Nac ydy

***C2.*** **Ydy eich cynllun, rhaglen neu strategaeth yn pennu'r fframwaith ar gyfer cysyniadau datblygu yn y dyfodol yn y meysydd uchod?**

- **Nid yw'r** gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn pennu strategaeth ar gyfer unrhyw rai o'r categorïau yn C1.

***C3. Ydy eich cynllun, rhaglen neu strategaeth yn galw am asesiad o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd?***

- Nac ydy

## 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

- **Nid yw'r** gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru **yn gymwys** i amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd yng Nghymru.

## 5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

**Nid yw'r** gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn cynnwys unrhyw rai o feini prawf yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol isod a fyddai'n sbarduno'r angen am Asesiad Effaith.

1) Adeiladu, mwyngloddio, gwaith echdynnu neu waredu gwastraff ar y tir neu'r môr (gan gynnwys datblygu trefol, priffyrdd, porthladdoedd, ynni, amaethyddiaeth a ffermio pysgod)
2) Newid defnydd tir
3) Coedwigo neu ddatgoedwigo
4) Gwaith gwella amaethyddol ar dir heb ei drin neu mewn ardaloedd lled-naturiol
5) Ailstrwythuro daliadau tir gwledig
6) Echdynnu dŵr neu ddraenio tir.

## ADRAN 6. Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL?

**6.1 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.**

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, roi sylw dyladwy i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Dim ond i benderfyniadau o natur strategol y mae'r ddyletswydd hon yn gymwys.

- Nid yw'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn cynnwys y meini prawf economaidd-gymdeithasol a ddiffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru “Cymru Fwy Cyfartal” Y Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol: canllawiau | LLYW.CYMRU, ac nid yw'r gwelliannau technegol arfaethedig yn ymwneud â materion a fyddai'n sbarduno mwy o anghydraddoldeb yn y gymuned.

- Ar eu gwaethaf, mae'r gwelliannau i'r safonau technegol yn niwtral o safbwynt economaidd-gymdeithasol, ac mae'n rhesymol dod i'r casgliad y bydd tai sydd wedi'u hinswleiddio'n well ac sy'n defnyddio llai o ynni i'w gwresogi yn fuddiol i'r rhai sy'n wynebu risg o dlodi tanwydd neu ynni ac y byddent felly yn cael effaith gadarnhaol ar leihau anghydraddoldebau mewn rhai achosion.

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi saith Nod Llesiant fel y nodir yn Adran 8.3 o'r adroddiad hwn, a bydd y safonau estynedig o ran arbed tanwydd ac ynni fel y cynigir gan y diwygiadau hyn i Ddogfen Gymeradwy L oll yn arwain at fantais gadarnhaol i'r gymuned yn gyffredinol neu, fan lleiaf, nid ydynt yn gwaethygu amodau presennol.

- Fel rhan o'r broses o gyflawni'r cynnig i ymestyn safonau'r Rheoliadau Adeiladau o safbwynt economïau tanwydd, gofynnwyd am gyngor manwl gan gynghorwyr arbenigol wrth lunio ac adolygu'r cynigion, cynhaliwyd arfarniad o gostau economaidd y cynigion gan ymgynghorwyr penodedig a chafodd y rhain eu croeswirio gan economegwyr Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu ac ystyriwyd ei ymatebion, gweithiwyd gyda chydweithwyr o'r gwledydd datganoledig eraill i gydbwyso cynigion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfeiriad teithio cyffredinol y DU o safbwynt y llwybrau tuag at fod yn Garbon Niwtral, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn i gael sylwadau gan bob sector a chafodd yr ymatebion hynny eu hadolygu a chafodd y cynigion terfynol eu diweddaru lle ystyriwyd bod hynny'n briodol neu'n angenrheidiol cyn llunio casgliadau terfynol Llywodraeth Cymru a mynd ati i gyhoeddi a rhoi'r diwygiadau i ofynion Dogfen Gymeradwy Rhan L ar waith ochr yn ochr â

chyfnod trosiannol i roi amser i'r diwydiant adeiladu addasu a pharatoi ar gyfer y newidiadau.

Mae'r mesurau arbed ynni estynedig a gwmpesir gan y cynigion hyn yn arwain at ganlyniadau buddiol a chadarnhaol o'u hystyried yn erbyn canllawiau'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, ac **felly nid ystyrir bod angen Asesiad Effaith Llawn ar gyfer y prosiect hwn**, ond mae cofnod o benderfyniadau wedi cael ei gwblhau yn unol â chyngor gan Gydweithwyr Is-adran Cydraddoldebau a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru (negeseuon e-bost 20/05/2025) er mwyn dangos bod y drefn briodol wedi cael ei dilyn o dan y Ddyletswydd.

## ADRAN 7. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN SY'N OFYNNOL

Rydych bellach wedi penderfynu ar gyfer pa feysydd y mae angen cynnal asesiad effaith manylach. Rhestrwch nhw isod.

| **Asesiad Effaith** | **Oes/Nac oes** | **Os oes asesiad, dylech wneud y canlynol** |
|---|---|---|
| Hawliau plant | Nac oes^^ | |
| Cydraddoldeb | Oes* | Gweler Atodiad B |
| Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol | Nac oes*** | Gweler cofnod yr adolygiad |
| Prawfesur Gwledig | Nac oes | |
| Iechyd | Nac oes | |
| Preifatrwydd | Nac oes | |
| Y Gymraeg | Oes** | Gweler Atodiad E |
| Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Nac oes | Cyfeirio at 'Asesiad effaith y cam ymgynghori' dyddiedig Mehefin 2025 a baratowyd gan Adroit Economics ar ran y partner cyflawni arweiniol AECOM |
| Cyfiawnder | Nac oes | |
| Bioamrywiaeth | Oes* | Gweler Atodiad F |
| Newid yn yr Hinsawdd | Nac oes | |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Nac oes | |

| | | |
|---|---|---|
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Nac oes | |
| Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | Nac oes | |

* *Yn orfodol ar gyfer pob cynnig er mwyn cyflawni rhwymedigaethau statudol.*

*** Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y Gymraeg fel parhad o bolisïau presennol Llywodraeth Cymru y cytunwyd arnynt sy'n golygu nad yw'n ofynnol cyfieithu rheoliadau na dogfennau canllaw technegol y Rheoliadau Adeiladu i'r Gymraeg.*

**** Rydym wedi cofnodi'r broses gwneud penderfyniadau o dan y Ddyletswydd i ddangos sut y daethom i'r casgliad nad yw'r cynigion yn cael unrhyw effeithiau negyddol cyffredinol ar gymdeithas, ac yn ôl yr Asesiad Effaith Economaidd a gynhaliwyd gan Adroit dyddiedig Mehefin 2025 mae manteision cyffredinol i roi'r gwelliannau hyn i effeithlonrwydd Tanwydd ac Ynni ar waith drwy'r diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy L o'r Rheoliadau Adeiladu. Gweler Adran 6.1*

*^^ Rydym wedi asesu'r polisi arfaethedig i ymestyn safonau technegol ar gyfer arbed tanwydd ac ynni mewn adeiladau yn erbyn y meini prawf a nodir yn fersiwn 3.3 o dempled yr Asesiad Effaith Integredig, ac wedi dod i'r casgliad nad oes angen Asesiad Effaith llawn, ac wedi cofnodi'r broses gwneud penderfyniadau honno.*

# ADRAN 8. CASGLIAD

**8.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi helpu i'w ddatblygu?**

Nid yn unig y mae dyletswydd arnom i ymgysylltu ac ymgynghori o dan amgylchiadau penodol, mae tystiolaeth glir i ddangos hefyd fod cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid yn hollbwysig er mwyn rhoi polisi ar waith yn llwyddiannus. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn ymrwymedig i gynnwys pobl. Disgrifiwch sut rydych wedi cynnwys y canlynol:

*Plant a'u cynrychiolwyr;*

  - Mae'r gwelliannau arfaethedig i safonau technegol effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn bwnc arbenigol sy'n galw am lefel uchel o hyfforddiant uwch i'w rhoi ar waith yn y sector gwaith adeiladu. **Nid yw'n fater** y byddai disgwyl i blant neu eu cynrychiolwyr gymryd rhan ynddo, felly nid yw'n gymwys ymgysylltu â phlant ar gyfer y diwygiadau technegol arbenigol hyn.

*Pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;*

- Mae'r gwelliannau arfaethedig i safonau technegol effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn bwnc arbenigol mewn maes arbenigedd bach iawn sy'n galw am lefel uchel o hyfforddiant uwch i'w rhoi ar waith yn y sector gwaith adeiladu. **Nid yw'n fater** y byddai disgwyl i bobl â nodweddion gwarchodedig gymryd rhan ynddo, felly nid yw'n gymwys ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig ar gyfer y diwygiadau technegol arbenigol hyn.

*Siaradwyr Cymraeg a grwpiau arbenigol y Gymraeg;*

- **Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn Atodiad E.** Yn ystod y cyfnod ymgynghori croesewir ymatebion yn Gymraeg a chaiff y rhain eu cyfieithu er budd y mwyafrif o ymatebwyr sydd bob amser wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori drwy gyfrwng y Saesneg yn hanesyddol. Mae'r broses ymgynghori ar agor i'r cyhoedd ledled y DU a thu hwnt oherwydd gallai effeithio'n gyfartal ar y bobl neu'r cwmnïau hynny ag y gallai yng Nghymru.

*Pobl eraill y gallai'r cynnig effeithio arnynt.*

- Gall unrhyw un gyfrannu at yr ymgynghoriad, nid oes unrhyw gyfyngiadau ar gymryd rhan.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Bydd y gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn cael yr effeithiau sylweddol canlynol:

**Cadarnhaol:**

- Lleihau'r defnydd o danwyddau ffosil
- Rhoi'r gorau i ddefnyddio boeleri nwy ac olew
- Mwy o ddefnydd o ddulliau cynhyrchu ynni ar y safle fel paneli ffotofoltäig a phaneli solar (dŵr)
- Mwy o ddefnydd o systemau adfer gwres
- Mwy o ddefnydd o gyflenwadau aer mecanyddol â hidlyddion
- Lefelau uwch o inswleiddio a safonau perfformiad gwell ar gyfer elfennau fel ffenestri
- Rheoli enillion solar yn well
- Systemau mwy cywir i fesur a chyfrifo effeithlonrwydd ynni
- Costau tanwydd is a thaliadau sefydlog is
- Mynd i'r afael â'r angen i'r stoc dai bresennol gynnwys mesurau ynni adnewyddadwy a gwelliannau ‘gwyrdd’ ychwanegol
- Lliniaru'r risg o orboethi pan gaiff gwaith risg uchel penodol ei wneud mewn anheddau presennol.

**Negyddol:**

- Costau cyfalaf uwch yn achos rhai mesurau adnewyddadwy ond caiff y rhain eu gwrthbwyso gan y lleihad yng nghostau tanwydd ffosil a nodwyd gan yr asesiad effaith economaidd – yn gyffredinol, dylai hyn fod yn fuddiol i'r gymuned
- Efallai y bydd yr amserlenni cyflwyno yn 12 i 18 mis fel y gall y diwydiant adeiladu uwchsgilio ar gyfer y cynigion newydd.

I grynhoi, mae disgwyl i'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru arwain at welliant mewn safonau byw o ganlyniad i gartrefi cynhesach, cysur thermol, costau ynni is ac amodau iechyd mewnol gwell, a bydd mantais gymunedol hefyd yn nhermau cyfrannu at y targed o gyflawni dim allyriadau carbon erbyn 2050 a gwneud Cymru yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo drwy wella'r stoc dai ac adeiladau.

### 8.3 O ystyried yr effeithiau a nodwyd, ac mewn perthynas â saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru, mae'r cynigion hyn yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ar y cyfan, sef:

- **Cymru lewyrchus**

        - Dylai'r cynigion leihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil a lleihau costau gwresogi i deuluoedd yng Nghymru
    - **Cymru gydnerth**
        - Bydd lleihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil yn sefydlogi costau i breswylwyr yng Nghymru ac yn helpu Cymru i fod yn fwy cydnerth os bydd amrywiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth
        - Bydd y cynigion yn lliniaru effaith gorboethi pan gaiff gwaith penodol ei wneud.
    - **Cymru iachach**
        - Mae costau gwresogi is yn golygu mwy o incwm i'w wario ar fwydydd iachach, gweithgareddau hamdden gwell, ansawdd aer gwell mewn cartrefi yn sgil defnyddio canllawiau awyru statudol newydd, lleihad mewn allyriadau uniongyrchol o bibelli egsôst boeleri nwy ac olew.
    - **Cymru sy'n fwy cyfartal**
        - Bydd y cynigion technegol estynedig o fudd i bob aelod o gymdeithas yng Nghymru heb anghydraddoldeb a gallent fod yn fuddiol i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf drwy leihau eu costau gwresogi a chanran y rhai sydd mewn tlodi tanwydd o ganlyniad i'r cynnydd diweddar mewn prisiau nwy ac olew.
    - **Cymru o gymunedau mwy cydlynus**
        - Nid yw'r cynigion technegol estynedig yn gwahaniaethu rhwng unrhyw aelodau o'r gymdeithas yng Nghymru
    - **Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu**
        - Nid yw'r cynigion yn cael unrhyw effaith negyddol fesuradwy ar y Gymraeg
    - **Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang**
        - Bydd lleihau'r defnydd o danwyddau ffosil mewn cartrefi ac adeiladau ledled Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol tuag at ymrwymiad Cymru i fod yn garbon niwtral erbyn 2050, ac fel y cyfryw mae'n dangos yn glir bod Cymru yn gyfrifol ar lefel fyd-eang.

- **Bydd y cynigion yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl:**

  Bydd y gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn lleihau'r carbon a ddefnyddir yng Nghymru yn sylweddol a dylai hyn helpu i leihau'r ffactorau sy'n gysylltiedig ag achosi cynhesu byd-eang, lleihau'r ddibyniaeth gost ar danwyddau ffosil a thrwy hynny ryddhau incwm i deuluoedd ei wario ar bethau eraill, a thrwy ddarparu adeiladau ‘iachach’, dylent hefyd greu amgylchedd iachach i drigolion Cymru fyw a gweithio ynddo.

## 8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?

Mae'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn ofyniad cydymffurfio technegol ac fe'u bernir ar sail p'un a yw cais am Gydsyniad Rheoliadau Adeiladu ar gyfer prosiect adeiladu arfaethedig yn llwyddo neu'n methu. Yn eu hanfod, caiff y

safonau uchel a bennir eu monitro a'u gwerthuso yn ôl y llwyddiant i gael cydsyniad Rheoliadau Adeiladu ac os na fydd prosiectau'n llwyddo i wneud hynny, ni fyddant yn cael eu hadeiladu.

**Pa gynlluniau sydd ar waith i gynnal adolygiad a gwerthusiad ôl-weithredu?**

Mae'r Rheoliadau Adeiladu yng Nghymru a ledled y DU yn esblygu bob amser ac yn cael eu diweddaru yn unol â safonau gwell ac uwch. Y nod yw y bydd pob tŷ a chartref newydd yn garbon niwtral erbyn 2050, ac y bydd y stoc adeiladau bresennol yng Nghymru yn gwneud cyfraniad ystyrlon tuag at leihau eu defnydd o ynni wrth iddynt hwythau hefyd droi tuag at ddyfodol mwy gwyrdd.

Caiff Rheoliadau Adeiladu Cymru eu monitro'n gyson ymhlith y 4 gwlad ddatganoledig ac mae trefniadau cydweithio trawslywodraethol hefyd yn helpu pob gwlad i reoli a gwella ei rheoliadau ei hun. Caiff pob cynnig ei werthuso hefyd gan Bwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu.

## ADRAN 9. DATGANIAD

**Datganiad**

Rwy'n fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi'i hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: Neil Hemington

Adran: Y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig-Cynllunio (Rheoliadau Adeiladu)

Dyddiad: 11 Gorffennaf 2025

# ATODIAD B

# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU – **CYDRADDOLDEB**

**Cefndir y prosiect a chasgliadau:**

Cyfeiriwch at ddogfen drosolwg yr Asesiad Effaith Integredig adrannau 1-9 dyddiedig Mehefin 2025

Mae'r Asesiad Llawn canlynol o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ofyniad gorfodol fel y nodir yn fersiwn 3.3 o dempled yr Asesiad Effaith Integredig - Ionawr 2024.

# ASESIAD EFFAITH LLAWN

## B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**Ystyriaeth o effaith bosibl y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifiwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am grwpiau oedran gwahanol) | Dylai'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru fod o fantais gyffredinol i bobl o bob oed yng Nghymru yn yr ystyr bod y cynigion yn ceisio lleihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil a gwella safonau inswleiddio adeiladau gan leihau cost a gwariant, a rhoi mwy o sefydlogrwydd o ran costau | Bydd y gwelliannau arfaethedig yn golygu na fydd modd cael Cydsyniad Rheoliadau Adeiladu os defnyddir boeleri nwy neu olew. Bydd y gwelliannau yn cynyddu'r gofynion inswleiddio ar gyfer adeiladau ac yn annog y defnydd o systemau awyru mecanyddol â hidlyddion mewn anheddau | Mae'r effeithiau yn gadarnhaol, felly nid oes angen mesurau lliniaru |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o | Nid yw'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn cael unrhyw effaith ar y | Gwelliannau safonau technegol i effeithlonrwydd ynni yw'r rhain ac nid ydynt yn effeithio ar y rhwystrau i anableddau | Dim effaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| anabledd[3] a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol, neu y gallai gael ei ddefnyddio i ddileu'n rhagweithiol, y rhwystrau sy'n anablu pobl â gwahanol fathau o amhariad) | model cymdeithasol o anabledd | | |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol) | Nid yw'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn cael unrhyw effaith ar ailbennu rhywedd | Gwelliannau safonau technegol i effeithlonrwydd ynni yw'r rhain ac nid ydynt yn effeithio ar ailbennu rhywedd | Dim effaith |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Nid yw'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn cael unrhyw effaith ar Feichiogrwydd a Mamolaeth heblaw am welliannau buddiol ar ffurf tai sydd wedi'u | Gwelliannau safonau technegol i effeithlonrwydd ynni yw'r rhain ac nid ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar Feichiogrwydd a Mamolaeth | Dim effaith uniongyrchol, ond ceir manteision canlyniadol ar ffurf cartrefi cynhesach a llai o wariant ar danwydd sydd o fudd i deuluoedd |

[3] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd.  Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn cael eu hanablu gan amhariadau ond gan y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Y ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl yw drwy sicrhau mai dileu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, y bydd eich cynnig. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hinswleiddio'n well a llai o wariant ar gostau tanwydd | | |
| Hil (gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig gwahanol, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Nid yw'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn cael unrhyw effaith ar Leiafrifoedd Ethnig | Gwelliannau safonau technegol i effeithlonrwydd ynni yw'r rhain ac nid ydynt yn effeithio ar Leiafrifoedd Ethnig | Dim effaith |
| Crefydd a chred a diffyg cred | Nid yw'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn cael unrhyw effaith ar Grefydd | Gwelliannau safonau technegol i effeithlonrwydd ynni yw'r rhain ac nid ydynt yn effeithio ar Grefydd | Dim effaith |
| Rhyw / Rhywedd | Nid yw'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn cael unrhyw effaith ar Ryw neu Rywedd | Gwelliannau safonau technegol i effeithlonrwydd ynni yw'r rhain ac nid ydynt yn effeithio ar Ryw a Rhywedd | Dim effaith |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Nid yw'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn cael unrhyw effaith ar Gyfeiriadedd rhywiol | Gwelliannau safonau technegol i effeithlonrwydd ynni yw'r rhain ac nid ydynt yn effeithio ar Gyfeiriadedd rhywiol | Dim effaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Priodas a phartneriaeth sifil | Nid yw'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn cael unrhyw effaith ar briodas a phartneriaeth sifil | Gwelliannau safonau technegol i effeithlonrwydd ynni yw'r rhain ac nid ydynt yn effeithio ar briodas a phartneriaeth sifil | Dim effaith |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Rhagwelir y bydd teuluoedd yn cael budd yn gyffredinol o fyw mewn cartrefi cynhesach ac iachach, ac felly bydd plant a phobl ifanc ar eu hennill hefyd | Bydd y gwelliannau arfaethedig yn golygu na fydd modd cael Cydsyniad Rheoliadau Adeiladu os defnyddir boeleri nwy neu olew. Bydd y gwelliannau yn cynyddu'r gofynion inswleiddio ar gyfer adeiladau ac yn annog y defnydd o systemau awyru mecanyddol â hidlyddion mewn anheddau | Mae'r effeithiau yn gadarnhaol, felly nid oes angen mesurau lliniaru |
| Aelwydydd incwm isel | Rhagwelir y bydd teuluoedd yn cael budd yn gyffredinol o fyw mewn cartrefi cynhesach ac iachach, a thrwy ddefnyddio paneli ffotofoltäig a solar, pympiau gwres o'r aer a dulliau eraill o adfer gwres yn lle dibynnu ar foeleri nwy neu olew, dylid gallu arbed arian ar gostau tanwydd | Bydd y gwelliannau arfaethedig yn golygu na fydd modd cael Cydsyniad Rheoliadau Adeiladu os defnyddir boeleri nwy neu olew. Bydd y gwelliannau yn cynyddu'r gofynion inswleiddio ar gyfer adeiladau ac yn annog y defnydd o systemau awyru mecanyddol â | Mae'r effeithiau yn gadarnhaol, felly nid oes angen mesurau lliniaru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwresogi a fydd o fudd i aelwydydd incwm isel neu'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd. | hidlyddion mewn anheddau | |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

**Nid yw'r** gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith** ar hawliau dynol, gwelliannau safonau technegol yw'r rhain ac nid ydynt yn gymwys wrth ystyried Hawliau Dynol fel y'u pennir gan Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| **Dd/G** | **Dd/G** | **Dd/G** | **Dd/G** |

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir**

Mae Rhan 2 o Gytundeb Ymadael y DU â'r UE, ynghyd â'r Cytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau'r AEE-EFTA a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir ("Cytundebau Hawliau Dinasyddion") yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, yr AEE[4] a'r Swistir a oedd yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y diogelir eu hawliau fel dinasyddion.

Caiff Cytundebau Hawliau Dinasyddion eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.[5]

Ar y cyfan, bydd unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn parhau i fod â'r un hawliau i weithio, astudio, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael budd-

[4] Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yn cynnwys gwledydd yr UE yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

[5] Adrannau 5 a 6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

daliadau, i'r graddau bod yr hawliau hyn wedi deillio o aelodaeth y DU o'r UE yn ogystal â'i chyfranogiad yng Nghytundeb yr AEE a Chytundeb Rhyddid Pobl i Symud rhwng yr UE a'r Swistir.

Yn ddarostyngedig i rai eithriadau cyfyngedig[6], bydd angen i unigolion fod wedi gwneud cais am statws preswylydd newydd (naill ai statws preswylydd cyn-sefydlog neu statws preswylydd sefydlog) drwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o'r fath oedd 30 Mehefin 2021.

**Nid yw'r** gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith** ar hawliau dynol, gwelliannau safonau technegol yw'r rhain ac nid ydynt yn gymwys wrth ystyried Hawliau Dinasyddion y Swistir a'r UE/AEE.

**Preswylio** – yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswylio: *hawliau i adael gwlad a dod i mewn iddi, ceisiadau am statws preswylydd, cyfyngiadau ar hawliau i ddod i mewn i wlad a phreswylio;*

**Nid yw'r** gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith** ar hawliau preswylio.

**Cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol** – *parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);*

**Nid yw'r** gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith** ar gydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol.

**Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol** – *mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd*

**Nid yw'r** gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith** ar fynediad at ofal iechyd a systemau nawdd cymdeithasol.

**Triniaeth gyfartal** – *mae hyn yn cwmpasu dim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;*

**Nid yw'r** gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith** ar drin gweithwyr yn gyfartal a'u hawliau.

**Hawliau gweithwyr** – *Ar y cyfan, gwarantir yr un hawliau i weithwyr a phobl hunangyflogedig sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion ag a oedd ganddynt pan oedd y DU yn*

[6] E.e. os oes gan unigolyn ddinasyddiaeth Wyddelig (gan gynnwys dinasyddiaeth Brydeinig a Gwyddelig ddeuol) neu os oedd ganddo ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU)

*Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt yr hawl i beidio â wynebu gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd a'r hawl i gael triniaeth gyfartal â gwladolion y DU*

**Nid yw'r** gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith** ar hawliau gweithwyr.

(Gall gweithwyr trawsffiniol [dinasyddion sy'n preswylio mewn un wladwriaeth ac yn gweithio'n rheolaidd mewn un arall] barhau i weithio yn y DU os oeddent yn gwneud hynny erbyn 31 Rhagfyr 2020).

*I'w ddarllen ar y cyd ag Atodiad Adolygiad – gofynion y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ac Adrannau 1-9 o'r Asesiad Effaith Integredig hwn.*

# ATODIAD E

# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU – **Y GYMRAEG**

# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

### Cefndir y prosiect a chasgliadau:

Cyfeiriwch at ddogfen drosolwg yr Asesiad Effaith Integredig adrannau 1-9 dyddiedig Mehefin 2025

Mae'r Asesiad Llawn canlynol o'r Effaith ar y Gymraeg wedi cael ei baratoi ar ôl cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru nad oes angen cyfieithu canllawiau a dogfennau technegol y Rheoliadau Adeiladu i'r Gymraeg.

### Y Gymraeg


Nid oes cysylltiadau arwyddocaol rhwng y cynigion polisi a'r Gymraeg. Ni ddisgwylir i'r cynigion gael unrhyw effaith ar hyrwyddo, cefnogi neu ddatblygu'r Gymraeg ac ni ddisgwylir iddynt gael unrhyw effaith ar gymunedau Cymraeg na gwasanaethau Cymraeg mewn perthynas â'r Gymraeg ychwaith.

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu hefyd wedi'i gynnwys yn un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn cynnwys tair thema gydgysylltiedig:




Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Ni fydd y cynnig i ymestyn y safonau technegol er mwyn gwella effeithlonrwydd tanwydd a thermol mewn adeiladau yn effeithio ar unrhyw un o'r penawdau uchod.

Cafwyd cadarnhad mai dim ond yn Saesneg y bydd y dogfennau cadarnhaol ar gael fel a ganlyn:

- Yn dilyn cyfarfodydd yn 2017, cadarnhaodd adran Safonau Llywodraeth Cymru drwy e-bost (20 Mawrth 2017) nad oes angen cyfieithu dogfennau cynghori technegol y Rheoliadau Adeiladu i'r Gymraeg.

- Yn ystod y broses o gaffael meddalwedd cyfrifo effeithlonrwydd ynni HEM at ddibenion ymgynghori a gwerthuso bob 6 mis, cadarnhaodd adran Safonau Llywodraeth Cymru drwy e-bost (2 Rhagfyr 2024) nad oes angen cyfieithu i'r Gymraeg.

- Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Asesiad Effaith Integredig hwn, cadarnhaodd adran Safonau Llywodraeth Cymru unwaith eto nad oes angen cyfieithu'r dogfennau ymgynghori technegol a'r canllawiau (Dogfennau Cymeradwy) i'r Gymraeg.

O safbwynt polisïau Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026, mae holl ddogfennau'r Rheoliadau Adeiladu yng Nghymru ar gael yn Saesneg – ceir esboniad ym mhwynt 3 isod

**Rhesymeg fel y cytunwyd â'r adran Safonau:**

- Am eu bod yn hynod dechnegol, nid yw'r safonau effeithlonrwydd ynni hyn o ddiddordeb i'r cyhoedd ar y cyfan, dim ond i gynulleidfa eithriadol o fach ac arbenigol. Maent yn rhan o'r wybodaeth a geir yn Nogfennau Cymeradwy'r Rheoliadau Adeiladu na chânt eu cyfieithu (cytundeb parhaol o fewn Llywodraeth Cymru) ac felly ni fyddem yn ystyried y byddai'r cynulleidfaoedd disgwyliedig eisiau'r wybodaeth hon yn Gymraeg nac yn disgwyl hynny.

- Mae'r feddalwedd SAP a SBEM bresennol ar gyfer cyfrifo effeithlonrwydd ynni ar gael yn Saesneg yn unig, felly hefyd feddalwedd HEM sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd i ddisodli SAP. Caiff y feddalwedd ei datblygu gan gwmnïau yn Lloegr ac nid oes fersiwn Gymraeg (na Gwyddeleg/Sgoteg).

- Nid yw'r Rheoliadau Adeiladu yng Nghymru erioed wedi cael eu cyhoeddi yn Gymraeg am fod eu cynnwys hynod dechnegol wedi'i dargedu at sector arbenigol a bach iawn o Ddiwydiant Adeiladu sy'n gweithredu'n bennaf yn Saesneg.

- Mae'r asesiad presennol yn gwneud inni ddod i'r casgliad nad oes angen cyhoeddi'n ddwyieithog ac nad oes galw am hynny, a chafodd hyn ei gadarnhau gan adran Safonau Llywodraeth Cymru wrth asesu yn erbyn Meini Prawf Safon 47 yn ei hymateb e-bost dyddiedig 23 Ebrill 2025.

- Nid yw'r cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni yn cael unrhyw effaith fesuradwy ar gynaliadwyedd y Gymraeg.

- Nid yw'r cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni yn cael unrhyw effaith fesuradwy ar addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae'r rhai sy'n gweithio gyda'r rheoliadau technegol yn gwneud hynny o fewn amgylchedd cul sy'n defnyddio Saesneg i gyfathrebu, yn enwedig pan fo gofynion mewnbwn cysylltiedig

fel SAP, HEM a SBEM ar gael yn Saesneg yn unig. Byddai cyfieithu meddalwedd a dogfennau mor dechnegol yn rhy gostus a llafurus ac mae'n debygol na fyddent yn cael eu defnyddio am mai dim ond nifer bach iawn o weithwyr medrus fyddai'n gweithredu'r Rheoliadau Adeiladu i gyd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Ni fydd y cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu yn cael unrhyw effaith fesuradwy ar wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg. Mae'r Rheoliadau Adeiladu a dogfennau a deddfwriaeth gysylltiedig bob amser wedi gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg.
- Cafwyd cadarnhad gan OFMCO ar 20 Mawrth 2017 y bydd y Rheoliadau Adeiladu a Safonau Prydeinig, Codau Ymarfer, dogfennau canllaw a deunyddiau cysylltiedig eraill ar gael drwy gyfrwng y Saesneg lle bo'r ddogfennaeth dan sylw (Codau Prydeinig, Codau Ymarfer) wedi'i llunio'n gyfan gwbl gan sefydliadau Seisnig yn Lloegr, a byddai'n anymarferol ac yn rhy gostus mynd ati i sefydlu'r un sefydliadau yng Nghymru ar sail galw nas gwelwyd hyd yma.

Gan na fydd unrhyw effaith fesuradwy yn deillio o'r cynnig i ymestyn y safonau technegol, nid oes angen monitro.

# ATODIAD F

# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU – **BIOAMRYWIAETH** (LLAWN)

**Cefndir y prosiect a chasgliadau:**

Cyfeiriwch at ddogfen drosolwg yr Asesiad Effaith Integredig adrannau 1-9 dyddiedig Mehefin 2025

Mae'r Asesiad Llawn canlynol o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn ofyniad gorfodol fel y nodir yn fersiwn 3.3 o dempled yr Asesiad Effaith Integredig - Ionawr 2024.

# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## B. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn cynnwys chwe amcan i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth y dylid eu defnyddio i asesu'r effeithiau ar fioamrywiaeth. Gallant hefyd fod o gymorth wrth ddatblygu a llywio camau gweithredu i gydymffurfio â dyletswydd a6. Maent wedi cael eu symleiddio fel set o gwestiynau i'ch tywys drwy'r asesiad effaith.

Mae'r cwestiynau a'r ymatebion canlynol wedi cael eu hystyried er nad yw'r cynnig yn cynnwys elfen rheoli tir.

**Rhaid ystyried cwestiynau 1 – 9 ar gyfer POB polisi.** Mae ein hymatebion fel a ganlyn lle bo hynny'n berthnasol i safonau arbed ynni a thanwydd estynedig y Rheoliadau Adeiladu ar gyfer adeiladau:

**<u>Ymgorfforu bioamrywiaeth</u>**

1. **Sut bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i'r broses o wneud penderfyniadau?**
   Nid yw'r cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar fioamrywiaeth.

   - *Ydych chi wedi ystyried yr effeithiau a’r cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth yn ystod camau cynnar y broses o feddwl neu ddylunio prosiect?*
     - Ydyn, dylai'r lleihad yn y defnydd o danwyddau ffosil i wresogi adeiladau yng Nghymru, yn unol â bwriad y cynigion, helpu i leihau cynhesu byd eang a nifer y cynefinoedd a gollir. Ni fydd cynigion estynedig y polisi yn effeithio ar rywogaethau na chynefinoedd bioamrywiaeth yn uniongyrchol gan mai gwelliant technegol i safonau perfformiad thermol ac inswleiddio ar gyfer adeiladau yng Nghymru ydyw.

   - *Pa effeithiau fydd caffael yn eu cael ar fioamrywiaeth, gan gynnwys bioamrywiaeth fyd-eang?*
     - Bydd y cynigion amrywiol o fudd i fioamrywiaeth gan y byddant yn gwella safonau arbed ynni gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu presennol ac, o ganlyniad, yn gwneud adeiladau a systemau adeiladu yn fwy ynni effeithlon.

- *A yw'r cynhyrchion yn dod o ffynonellau cynaliadwy?*
    - Mae'r cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru yn "agnostig o safbwynt technegol" ac nid ydynt yn pennu unrhyw ddeunyddiau neu gynhyrchion penodol. Fe'u hysgrifennwyd i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar y safonau perfformiad sydd eu hangen i gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Adeiladu. Felly, nid yw'r cynnig i ymestyn y gofynion polisi yn ymdrin â'r broses o gyrchu deunyddiau. Mater i'r dylunwyr unigol a fydd yn gwneud cais am gymeradwyaeth o dan y Rheoliadau Adeiladu fydd hyn.

- *A yw eich prosiect yn cynnwys defnyddio deunyddiau neu arferion sy'n niweidiol i fioamrywiaeth?*
    - Nac ydy, nid yw'r safonau technegol estynedig yn pennu deunyddiau nac arferion adeiladu penodol.

- A yw'n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid a buddiolwyr ystyried yr effeithiau a'r cyfleoedd ar gyfer gweithredu cadarnhaol dros fioamrywiaeth yn ystod camau cynnar y broses o feddwl a dylunio prosiectau?
    - A yw ystyried bioamrywiaeth yn un o ofynion ceisiadau am gyllid a manylebau prosiectau?
    - A yw eich gwerthusiad o'r rhain yn ceisio sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella?

**Bydd y cynigion amrywiol o fudd i fioamrywiaeth gan y byddant yn gwella safonau arbed ynni gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu presennol ac, o ganlyniad, yn gwneud adeiladau a systemau adeiladu yn fwy ynni effeithlon.**

- **Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth**

2. **A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau busnes?**
   **Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth.**

3. **Sut mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?**

**Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith negyddol ar fioamrywiaeth**

**Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro**

4. **Ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?**

   **Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth**

5. **Ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?**
   **Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth**

6. **A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?**
   **Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth**

**Llywodraethu a chymorth i gyflawni camau gweithredu o blaid bioamrywiaeth**

7. **A all eich cynnig gefnogi camau gweithredu o blaid bioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?**
   **Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith negyddol ar fioamrywiaeth**

Bydd y cynigion o fudd i fioamrywiaeth gan y byddant yn gwella safonau arbed ynni gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu presennol ac, o ganlyniad, yn gwneud adeiladau a systemau adeiladu yn fwy ynni effeithlon.

8. **A all eich cynnig helpu i feithrin gallu ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth?**
   **Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith negyddol ar fioamrywiaeth**

9. **Ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?**

**Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith negyddol ar fioamrywiaeth**. Bydd y cynigion o fudd i fioamrywiaeth gan y byddant yn gwella safonau arbed ynni gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu presennol ac, o ganlyniad, yn gwneud adeiladau a systemau adeiladu yn fwy ynni effeithlon.

**Os yw eich cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir a/neu fôr, ystyriwch gwestiynau 10 – 16 hefyd: Ddim yn gymwys.**

**<u>Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn</u>**

**Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth**

**10.** A gydymffurfir â phob deddfwriaeth i sicrhau y caiff rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol eu hamddiffyn?
**Ddim yn gymwys**

**11. A yw'r cynnig yn mynd ati <u>yn y lle cyntaf</u> i gynnal a gwella bioamrywiaeth?**

**Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith negyddol ar fioamrywiaeth.** Bydd y cynigion o fudd i fioamrywiaeth gan y byddant yn gwella safonau arbed ynni gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu presennol ac, o ganlyniad, yn gwneud adeiladau a systemau adeiladu yn fwy ynni effeithlon.

**<u>Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol</u>**

**12. A yw eich cynnig yn helpu i gynyddu cydnerthedd ein hecosystemau?**
**Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith negyddol ar fioamrywiaeth**

**13. A yw eich cynnig yn helpu i greu cynefinoedd newydd?**
**Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth**

**<u>Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd</u>**

**Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth**

14. **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar gynefinoedd neu rywogaethau?**
    **Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith negyddol ar fioamrywiaeth**

15. **A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth o safbwynt y pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd? Byddai hyn yn cynnwys y canlynol:**
    **Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth**

16. **Sut y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?**
    **Nid yw'r** cynnig i ymestyn gofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer anheddau ac adeiladau yng Nghymru **yn cael unrhyw effaith negyddol ar fioamrywiaeth**

# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU – **ADOLYGIAD O'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL**

### 6.1 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, roi sylw dyladwy i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Dim ond i benderfyniadau o natur strategol y mae'r ddyletswydd hon yn gymwys.

- Nid yw'r gwelliannau arfaethedig i safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau yng Nghymru yn cynnwys y meini prawf economaidd-gymdeithasol a ddiffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru "Cymru Fwy Cyfartal" Y Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol: canllawiau | LLYW.CYMRU, ac nid yw'r gwelliannau technegol arfaethedig yn ymwneud â materion a fyddai'n sbarduno mwy o anghydraddoldeb yn y gymuned.

- Ar eu gwaethaf, mae'r gwelliannau i'r safonau technegol yn niwtral o safbwynt economaidd-gymdeithasol, ac mae'n rhesymol dod i'r casgliad y bydd tai sydd wedi'u hinswleiddio'n well ac sy'n defnyddio llai o ynni i'w gwresogi yn fuddiol i'r rhai sy'n wynebu risg o dlodi tanwydd neu ynni ac y byddent felly yn cael effaith gadarnhaol ar leihau anghydraddoldebau mewn rhai achosion.

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi saith Nod Llesiant fel y nodir yn Adran 8.3 o'r adroddiad hwn, a bydd y safonau estynedig o ran arbed tanwydd ac ynni fel y cynigir gan y diwygiadau hyn i Ddogfen Gymeradwy L oll yn arwain at fantais gadarnhaol i'r gymuned yn gyffredinol neu, fan lleiaf, nid ydynt yn gwaethygu amodau presennol.

- Fel rhan o'r broses gyflawni ar gyfer y cynnig i ymestyn safonau'r Rheoliadau Adeiladau o safbwynt economïau tanwydd, gofynnwyd am gyngor manwl gan gynghorwyr arbenigol wrth lunio ac adolygu'r cynigion, cynhaliwyd arfarniad o gostau economaidd y cynigion gan ymgynghorwyr penodedig a chafodd y rhain eu croeswirio gan economegwyr, cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu ac ystyriwyd ei ymatebion, gweithiwyd gyda chydweithwyr o adrannau eraill i gydbwyso'r cynigion mewn perthynas â chyfeiriad teithio cyffredinol Llywodraeth Cymru o safbwynt y llwybrau tuag at sero net, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn i gael sylwadau gan bob sector a chafodd yr ymatebion hynny eu hadolygu a chafodd y cynigion terfynol eu diweddaru lle ystyriwyd bod hynny'n briodol neu'n angenrheidiol cyn llunio casgliadau terfynol yr adolygiad a mynd ati i wneud diwygiadau i'r rheoliadau adeiladu a chanllawiau statudol cysylltiedig i'w cyhoeddi ochr yn ochr â chyfnod trosiannol i roi amser i'r diwydiant adeiladu gydnabod, addasu a pharatoi ar gyfer y newidiadau.

  Mae'r mesurau effeithlonrwydd ynni estynedig a gwmpesir gan y cynigion hyn yn arwain at ganlyniadau buddiol a chadarnhaol o'u hystyried yn erbyn canllawiau'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, ac **felly nid ystyrir bod angen Asesiad Effaith Llawn ar gyfer y**

**prosiect hwn**, ond mae cofnod o benderfyniadau wedi cael ei gwblhau yn unol â chyngor gan Gydweithwyr Is-adran Cydraddoldebau a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru (negeseuon e-bost 20/05/2025) er mwyn dangos bod y drefn briodol wedi cael ei dilyn o dan y Ddyletswydd.

## C. ADOLYGIAD O ASESIAD Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

**Wrth ystyried y gwelliant arfaethedig i'r safonau technegol ar gyfer effeithlonrwydd thermol a thanwydd mewn adeiladau, mae'r ddealltwriaeth o sut y gallai'r cynnig gyfrannu at ganlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol wedi cael ei hystyried ac, yn gyffredinol, mae'r cynigion yn fuddiol i'r economi a'r gymdeithas yng Nghymru o ganlyniad, fel a ganlyn:**

Mae asesiad o effeithiau cost ar y cam ymgynghori wedi cael ei gynnal ar ran Llywodraeth Cymru gan Adroit Economics drwy AECOM *(Cyf: Building Regulations Review: Changes to Part L (conservation of fuel and power); Part F (ventilation) and Part O (overheating); of the Building Regulations: Consultation Stage Impact Assessment – June 2025)* a'i adolygu gan economegwyr Llywodraeth Cymru. Mae'r casgliadau yn nodi:

Mae'r asesiad effaith yn amcangyfrif y bydd pob un o'r newidiadau arfaethedig yn arwain at fantais net i Gymru fel a ganlyn:

- *Amcangyfrifir y bydd y newidiadau arfaethedig ar gyfer anheddau newydd yn arwain at fanteision net o £204m (Opsiwn 1) neu £111m (Opsiwn 2);*
- *Amcangyfrifir y bydd y newidiadau arfaethedig ar gyfer anheddau presennol yn arwain at fanteision net o £13m;*
- *Amcangyfrifir y bydd y newidiadau arfaethedig ar gyfer adeiladau annomestig newydd yn arwain at fanteision net o £15m (Opsiwn 1) neu £16m (Opsiwn 2);*
- *Amcangyfrifir y bydd y costau ymgyfarwyddo yn £2m.*

Mae copi'r asesiad llawn o'r effaith ariannol wedi cael ei gynnal ar dudalen Ymgynghoriad Rhan L 2025 Mae copi o'r adroddiad gan Ardoit ar gael ar tudalen ymgynghoriad Rhan L **Ymgyngoriadau | LLYW.CYMRU**

Bydd cynlluniau datblygu yn mynd i'r afael â datblygu cynaliadwy/arbed ynni drwy waith dylunio o ansawdd uchel. Bydd y gwelliannau a wneir i adeiladau o ganlyniad i unrhyw ddiwygiad o fudd i bobl a chymunedau yn gyffredinol. Ond mae'n gwneud synnwyr wedyn y bydd unrhyw bolisi

sy'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni a thermol eiddo newydd a phresennol (pan gaiff eiddo ei ymestyn/adnewyddu) yn gwella iechyd a llesiant y rhai sydd â phroblemau cardiofasgwlaidd ac anadlol ac yn lleihau cyfraddau marwolaethau ymhlith yr henoed yn y gaeaf yn benodol. Bydd lleihau costau gwresogi'r stoc adeiladau bresennol a newydd yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar incwm gwario'r gymuned ac felly yn cynyddu ffyniant yn yr hirdymor.

Bydd y cynigion yn fanteisiol i'r boblogaeth wledig. Mae dwywaith cymaint o dlodi tanwydd yn ardaloedd gwledig Cymru o gymharu ag ardaloedd trefol Cymru (ki-011-cymraeg.pdf) a bydd gwella perfformiad ynni tai yn lleihau tlodi tanwydd ac yn cynyddu ansawdd yr amgylchedd tai, gan wella iechyd a llesiant, yn enwedig ymhlith pobl hŷn.

Nid oes yn rhaid bod yn agos i rwydweithiau dosbarthu nwy i ddefnyddio technolegau gwresogi carbon isel ac felly bydd gosod technolegau gwresogi carbon isel yr un mor hygyrch mewn eiddo gwledig ag y bydd mewn ardaloedd trefol, sy'n golygu y bydd defnyddio technolegau gwresogi carbon isel yn hollbwysig er mwyn lleihau'r anghydraddoldebau rhwng darpariaethau gwresogi tai gwledig a threfol.

Mae llawer o dystiolaeth ar gael o'r effaith y mae ansawdd tai yn ei chael ar iechyd a llesiant cyffredinol (gweler, er enghraifft, *Geddes et al 2011*).[7] Mae gwaith ymchwil yn dangos bod cysylltiadau uniongyrchol rhwng tai oer a phroblemau cardiofasgwlaidd ac anadlol yn ogystal â marwolaethau ymhlith yr henoed yn y gaeaf. Gwelwyd cysylltiadau hefyd rhwng safonau tai ac iechyd meddwl, a llesiant a chyfleoedd plant/pobl ifanc. Mae'n gwneud synnwyr wedyn y gallai unrhyw bolisi sy'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni a thermol eiddo newydd a phresennol (pan gaiff eiddo ei ymestyn/adnewyddu) wella iechyd a llesiant.

Y prif farchnadoedd y mae newidiadau i Ran L y Rheoliadau Adeiladu yn effeithio arnynt yw'r rhai sy'n datblygu eiddo domestig ac annomestig newydd ac yn adnewyddu eiddo presennol. Mae disgwyl i'r cynnydd mewn costau cynhyrchu effeithio ar bob contractwr adeiladu yn gyfartal ar y cyfan ac mae cyfran y costau ychwanegol na ellir ei throsglwyddo i berchnogion tir neu'r prynwyr yn y pen draw yn debygol o gynrychioli canran gyfrannol o gostau adeiladu cyffredinol. Felly, mae unrhyw effeithiau cystadleuol posibl ar gontractwyr adeiladu yn debygol o fod yn fach.

Gallai'r safonau newydd gael effaith ar weithgynhyrchwyr a chyflenwyr i'r diwydiant adeiladu drwy gynyddu'r galw am ddeunyddiau a chynhyrchion manyleb uwch. Gallai'r newidiadau i'r rheoliadau gael effaith andwyol ar gyflenwyr cynhyrchion a deunyddiau perfformiad ynni is neu wneud iddynt ystyried yr angen i wella perfformiad eu cynhyrchion a fydd hefyd yn debygol o arwain at gostau uwch. Fodd bynnag, mae disgwyl i'r newid i'r rheoliadau hefyd arwain at fwy o gyfleoedd i weithgynhyrchwyr a chyflenwyr technolegau cynhyrchu carbon isel/di-garbon a chynhyrchion effeithlonrwydd ynni uchel.

[7] Geddes, I., Bloomer, E., Allen, J. a Goldblatt, P. The Health Impacts of Cold Homes and Fuel Poverty - Marmot Review Team, Adran Epidemioleg ac Iechyd y Cyhoedd, Coleg Prifysgol Llundain, Mai 2011

| |
|---|
| Gallai rhoi cyfle newydd i BBaChau yng Nghymru uwchsgilio ac ymgymryd â gweithrediadau newydd sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn roi hwb i weithgarwch economaidd a chryfhau gwaith adeiladu tai gan BBaChau yn y dyfodol yng Nghymru. Gallai'r gofyniad i wneud gwelliannau er mwyn lliniaru gorboethi pan gaiff gwaith penodol ei wneud ar adeiladau domestig greu marchnad newydd sylweddol (neu fwy o faint) i gwmnïau llai. Bydd cryn dipyn o'r gwaith hwn yn rhan o'r gwaith y mae cwmnïau bach yn ei wneud eisoes, neu'n debyg iawn iddo.<br><br>Nid yw'r cynigion hyn yn gwahaniaethu rhwng grwpiau a sectorau gan mai estyniad technegol cyffredinol i safonau adeiladu ydynt yn berthynol i'r gofynion i gael cydsyniad Rheoliadau Adeiladu.<br><br>Yn dechnegol, gallai safonau adeiladu uwch effeithio ar waith i adnewyddu adeiladau presennol o werth diwylliannol ond, yn gyffredinol, nid yw gofynion effeithlonrwydd ynni'r rheoliadau adeiladu yn gymwys i adeiladau hanesyddol neu adeiladau rhestredig lle byddai cydymffurfiaeth yn newid eu cymeriad neu'u hymddangosiad yn annerbyniol, gan wrthbwyso unrhyw effaith negyddol ar ddiwylliant neu amgylchedd treftadaeth adeiledig Cymru.<br><br>Caiff y duedd yn y dyfodol tuag at Gymru sero net erbyn 2050 ei hatgyfnerthu gan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 |
| Mae'r cynnig i ymestyn y safonau technegol ar gyfer perfformiad thermol gwell mewn adeiladau yng Nghymru hefyd yn cynnwys mabwysiadu adnodd asesu meddalwedd newydd (HEM) i werthuso perfformiad ynni mewn anheddau.<br><br>Bydd ymestyn y safonau technegol ar gyfer anheddau newydd yn arwain at symud oddi wrth systemau gwresogi sy'n defnyddio tanwydd ffosil i gartrefi a gaiff eu hadeiladu â systemau gwresogi carbon isel fel pympiau gwres a rhwydweithiau gwres, a symud tuag at ddefnyddio ynni adnewyddadwy fel paneli ffotofoltäig solar ochr yn ochr â gofynion uwch o ran aerglosrwydd ac inswleiddio. Bydd y safonau gwell hefyd yn arwain at liniaru risgiau gorboethi ac yn symud tuag at awyru ac ansawdd aer gwell mewn cartrefi. Cynigir y dylai adeiladau amhreswyl ddilyn yr un llwybr tuag at dechnoleg fwy gwyrdd a rhoi'r gorau i ddefnyddio systemau gwresogi nwy ac olew fel eu prif ddull gwresogi.<br><br>Mae'r asesiad economaidd wedi casglu y bydd lleihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil ac osgoi taliadau sefydlog ar gyfer cysylltiadau drwy gynhyrchu ynni ar y safle drwy baneli ffotofoltäig, yn lleihau costau gwresogi ac ynni ac yn cynyddu incwm gwario er budd preswylwyr.<br><br>Wrth i'r rhwydwaith trydan ddod yn “fwy gwyrdd” o ganlyniad i ffynonellau cynhyrchu adnewyddadwy, bydd adeiladau yng Nghymru yn cael budd awtomatig o fod yn “fwy gwyrdd” o ganlyniad uniongyrchol i hynny. |